Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bryngwran
Neuadd y Gymuned
Ysgol Gymuned Bryngwran
Bryngwran
Ynys Môn
LL65 3PP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bryngwran yn leoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Neuadd y Gymuned, ar safle Ysgol Gymuned Bryngwran, Ynys Môn. Daw bron pob un plentyn sy'n mynychu'r lleoliad o'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r lleoliad wedi'i gynnal yn y neuadd ers 1977 ac yn rhannu'r adeilad gydag asiantaethau eraill. Mae'r lleoliad ar agor rhwng 9.30yb a hanner dydd o ddydd Llun i ddydd Iau. Mae'r lleoliad yn rhedeg clwb brecwast a chlwb cinio.

Dywed y lleoliad fod llawer o blant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 13 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Ar hyn o bryd, mae 17 o blant yn mynychu'r lleoliad ar ryw adeg o'r wythnos; mae pedwar ohonynt yn dair blwydd oed.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2009. Mae cymhorthyddes yn ei chefnogi. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y lleoliad. Arolygwyd y lleoliad diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2013. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Estyn yn 2009.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynllunio da o'r profiadau dysgu;
- y cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol, sy'n cefnogi'r holl blant;
- yr adnoddau da sydd ar gael yn yr adeilad;
- y berthynas dda rhwng oedolion a phlant; a'r
- cyd-weithrediad effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod gan y lleoliad hanes da o roi newid ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau a lles plant;
- bod systemau hunanarfarnu a chynllunio strategol yn effeithiol;
- agwedd gadarnhaol a gweithredol y staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- defnydd rheolaidd a synhwyrol o gymorth allanol; ac
- mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r lleoliad:

A1 Gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i herio plant unigol

A2 Cwblhau asesiadau cyson sy'n arwain yn uniongyrchol at y cam nesaf yn nysgu'r plant

A3 Datblygu a chyfoethogi yr adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

A4 Mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Gosodir amser priodol yn wythnosol i'r arweinydd a'r staff drafod y cwricwlwm a gweithgareddau'r themau. Felly, mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n drwyadl ac mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Fodd bynnag, nid ydy'r amcanion dysgu yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno gyda digon o fanylder i herio plant unigol. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel cyfrifiadur, camerâu a thabled. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl yn y siop a'r gegin, arbrofi gyda dŵr a thywod, trafod y tywydd ac adeiladu blociau.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, er enghraifft, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant i ddatblygu ei medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn modelu iaith yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl. Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n ddigonol. Nid yw'r asesiadau'n arwain, gyda digon o fanylder, at dargedau plant unigol a'r camau nesaf iddynt yn eu haddysg. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod iechyd a lles y plant yn dda. Fodd bynnag, hysbyswyd yr arweinydd, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin am fater iechyd a diogelwch sydd angen sylw ynglŷn â storio celfi.

Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned yn gyson trwy deithiau i lan y môr, ffermydd lleol a'r pentref. Mae'r defnydd o'r pentref a'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn dda wrth fwyta tost a ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau fod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi ac mae staff yn trafod rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod.

Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, er bod diffyg ardal allanol addas yn cyfyngu rhywfaint ar hynny. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae gan staff y lleoliad gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfoethogi.

Mae'r lleoliad yn tyfu tatws, blodau a ffrwythau mewn potiau a bagiau. Fodd bynnag, mae'r ardal allanol yn gyfyng iawn ac nid oes cyfleoedd addas ar gael i'r plant i dyfu planhigion a chwarae ar deganau mawr.

Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn ail-gylchu papur, plastig a bwyd sy'n wastraff mewn bocsys penodol o gwmpas y lleoliad. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau yn llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn synhwyrol. Mae'r arfer hon yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd, staff a'r pwyllgor rheoli yn cynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol i'r plant.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Nodir blaenoriaethau clir ar gyfer gwella trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae ei systemau rheoli yn cwrdd â gofynion. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr a staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn llwyddiannus a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r lleoliad yn hunanarfarnu'n dda. Mae'n sicrhau cyswllt effeithiol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu. Mae tystiolaeth gadarn o arfarniadau buddiol wrth bawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r targedau priodol yn cynnwys gwella ysgrifennu cynnar a datblygu eu medrau TGCh; darparu cyfleoedd i wneud y plant yn annibynnol; mynychu cyrsiau priodol i wella arbenigedd staff; a sbarduno diddordeb y rhieni mewn rolau ar y pwyllgor rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r argymhelliad o'r arolwg blaenorol gan Estyn, ynglŷn â gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol, wedi ei wireddu'n llawn.

Mae'r lleoliad yn arfarnu meysydd i'w gwella yn effeithiol yn erbyn cyfrifoldebau a graddfeydd amser yn y cynllun datblygu. Mae'r staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar hunanarfarnu effeithiol a chynllunio i ddatblygu, wedi cryfhau dealltwriaeth yr holl staff a'r pwyllgor rheoli o'r broses. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas effeithiol rhwng y lleoliad a'r rhieni. Ceir llyfryn cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n darparu manylion perthnasol iddynt am y lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, maent wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgol yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol cyn iddynt ddechrau eu haddysg amser llawn.

Mae partneriaethau cadarn ac effeithiol yn bodoli ag ystod o fudiadau cymunedol. Mae'r bartneriaeth â'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda ac yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn strategol ac yn cynllunio i'r dyfodol. Mae'r adnoddau yn cael eu rheoli'n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol.

Mae'r pwyllgor rheoli a'r staff yn defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella cyflawniadau'r

plant.

Gwneir defnydd synhwyrol o'r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hylaw i'r plant. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal leol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol.

Er bod angen gwella rhai agweddau o'r addysgu a'r ardal allanol, mae'r ddarpariaeth gyffredinol a brwdfrydedd yr arweinyddiaeth yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |